# Adnodd Dysgu i Athrawon

## Constable:
## Salisbury Cathedral from the Meadows

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd • 7 Mawrth – 7 Medi 2014



*Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831
John Constable (1776 – 1837)
Ffotograph © Tate, Llundain 2013

Prynwyd gan Tate gyda chymorth y Loteri Genedlaethol drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Manton, y Gronfa Gelf (gyda chyfraniad gan Sefydliad Wolfson) ac Aelodau Tate mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, Gwasanaeth Amgueddfeydd Colchester ac Ipswich, Orielau Cenedlaethol yr Alban ac Amgueddfa Caersallog a De Wiltshire, 2013.

**Cynnwys** **tud.**


| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth gefndirol i athrawon** | **3-11** |
| *Yr arlunydd* | *4* |
| *Y paentiad* | *5-7* |
| *Gweithiau eraill yn yr arddangosfa* | *8-11* |
| *Cwestiynau arweiniol: Edrych ar Dirluniau* | *11* |
| **Paratoi ar gyfer eich ymweliad** | **12** |
| **Themâu a gweithgareddau** | **13-21** |
| *Dylanwad ac Efelychiant* | *13* |
| *Goleuni Beirniadol* | *14-15* |
| *Gadael ei Farc* | *16-17* |
| *Awyr a chydymdeimlad I* | *18-19* |
| *Awyr a chydymdeimlad II* | *20-21* |
| **Geirfa** | 22 |
| **Gwefannau ac adnoddau** | 22 |

## Achub campwaith ar gyfer Prydain gyfan

I Constable, *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831*,* oedd gorchest fwyaf ei fywyd artistig. Ystyrir y paentiad yn un o gampweithiau celf Brydeinig. Fe'i prynwyd gan y Tate er budd y cyhoedd ym mis Mai 2013, diolch i grantiau sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Manton, y Gronfa Gelf (gyda chyfraniad gan Sefydliad Wolfson) ac Aelodau Tate.

Er mwyn sicrhau'r pryniad, daeth pum casgliad cyhoeddus ynghyd mewn partneriaeth: Tate, Amgueddfa Cymru, Gwasanaeth Amgueddfeydd Colchester ac Ipswich, Amgueddfa Caersallog a De Wiltshire ac Orielau Cenedlaethol yr Alban. Mae'r fenter, sef Aspire, yn broject pum mlynedd a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Gelf er mwyn sicrhau y caiff y gwaith ei weld mewn lleoliadau partner ledled y DU. Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw'r lleoliad cyntaf i arddangos y paentiad.

## Yr arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Bydd *Salisbury Cathedral from the Meadows* yn ganolbwynt i arddangosfa sy'n bwrw golwg ar fywyd Constable a'r paentiad ei hun; ac sy'n sefydlu'r arlunydd fel un o geffylau blaen datblygiad peintio tirluniau Ewrop.

## Trefnu ymweliad

Bydd yr arddangosfa i'w gweld rhwng 7 Mawrth a 7 Medi 2014. I drefnu'ch ymweliad, ffoniwch yr Adran Addysg ar (029) 2057 3240 neu e-bostiwch addysg@amgueddfacymru.ac.uk.

## Defnyddio'r pecyn hwn

Nod y pecyn yw helpu athrawon ac addysgwyr i baratoi ar gyfer ymweliad hunandywys, yn ogystal â chynorthwyo gyda dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir am Constable, y paentiad a gweithiau allweddol eraill yn yr arddangosfa; syniadau ar gyfer themâu a gweithgareddau i'w harchwilio cyn eich ymweliad, yn yr oriel a nôl yn yr ysgol ar gyfer disgyblion CA2-4; a syniadau ar gyfer archwilio'r paentiad hwn fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen. Er bod pob gweithgaredd wedi'i fwriadu ar gyfer grŵp oed penodol, maen nhw'n hyblyg ac yn hawdd eu haddasu ar gyfer grwpiau oedran gwahanol.

Adnodd preifat yw'r pecyn hwn i'w ddefnyddio at ddibenion addysgol yn unig. Mae'r holl ddelweddau at ddefnydd mewnol yn unig, ac ni allwch eu copïo, eu dosbarthu na'u defnyddio at unrhyw ddibenion eraill heb gael caniatâd priodol ymlaen llaw. Nid yw Amgueddfa Cymru yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefannau allanol a ddarperir.

## Cysylltiadau'r Cwricwlwm

Mae'r paentiad yn cynnig cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd. Gallwch ei ddefnyddio'n arbennig i ategu cynlluniau dysgu Celf a Dylunio, Daearyddiaeth, Llythrennedd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Hanes, ac ar gyfer datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd hefyd (sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh).

## John Constable (1776-1837)

**Erbyn heddiw, ystyrir Constable yn un o feistri tirluniau enwocaf Prydain**. Wedi'i eni a'i fagu yn East Bergholt, Suffolk, y bwriad oedd iddo weithio fel melinydd ym musnes y teulu, ond penderfynodd yn hytrach ar yrfa fel arlunydd. Trwy ei dechneg arloesol a'i ymrwymiad i beintio'r gwir, cyflwynodd ddull newydd o ddarlunio byd natur, a daeth yn un o'r artistiaid hynny a weddnewidiodd lawer o draddodiadau peintio tirluniau.

**I Constable, roedd pob rhan o'r dirwedd yn haeddu sylw'r arlunydd**. Roedd pob manylyn bach o'r pwys mwyaf iddo er na fyddai llawer o'i gyfoedion yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu hystyried o gwbl. '*The sound of water escaping from mill dams, willows, old rotten planks, slimy posts, and brickwork, I love such things*' ysgrifennodd unwaith. Doedd dim byd yn rhy gyffredin, di-nod, neu hyll i haeddu lle yn ei gelf. Roedd hwn yn gam dewr a beiddgar ar y pryd.

**Roedd Constable yn credu y dylai tirlunwyr beintio golygfeydd a thestunau â chysylltiadau personol** – llefydd roedden nhw wedi ymweld â nhw a chael profiad uniongyrchol ohonynt, llefydd oedd wedi procio'r cof a deffro'r emosiynau. Cafodd llawer o'i waith ei ysbrydoli gan atgofion o'i blentyndod yn Suffolk. Er enghraifft, mae *Bwthyn mewn Cae Ŷd* (1817), yn dangos bwthyn syml yn y wlad, gydag asyn ac ebol wrth y gât – golygfa a welodd Constable wrth gerdded i'r ysgol bob dydd.

**Dywedodd unwaith mai gair arall am deimlo yw 'peintio'.** Mae hyn yn allweddol er mwyn deall ei waith. Nid pethau i *edrych* arnynt yn unig yw paentiadau Constable – mae angen eu *teimlo* hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir am *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831, canolbwynt yr arddangosfa hon.



*Bwthyn mewn Cae Ŷd* 1817
John Constable (1776-1837)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Prynwyd gyda chefnogaeth y Gronfa Gelf, 1978

***Rhagor o wybodaeth***

*Bywgraffiad Constable (Tate)*
*http://www.tate.org.uk/art/artists/john-constable-108*

*Constable ar wefan Your Paintings* y BBC
*http://www.bbc.co.uk/arts/yourpaintings/artists/john-constable*

## Caersallog Fawr

Roedd Constable am i bobl ei gofio am ei lun mawreddog, *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Dyma ei '*Great Salisbury*' yn ei eiriau ef. Iddo ef, y campwaith chwe throedfedd hwn oedd penllanw ei lwyddiant artistig. Mae'n dangos golygfa o Eglwys Gadeiriol Caersallog (Salisbury), Swydd Wiltshire, dan wybren fygythiol a mellten yn taro'r to. Gwelir bwa enfys uwchben, sy'n lliniaru effeithiau'r storm. Ond mae mwy i'r llun hwn nag Eglwys Gadeiriol yng nghanol tywydd tymhestlog. Mae'n frith o arwyddocâd ac ystyron personol a chyhoeddus.

## Stormydd personol a gwleidyddol

Pan beintiodd Constable *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831, roedd yr arlunydd yng nghanol ei drallod personol ei hun a gafodd gryn effaith arno. Bu farw Maria ei annwyl wraig o'r diciâu dair blynedd ynghynt, gan adael Constable torcalonnus i fagu saith o blant ar ei ben ei hun. Roedd hefyd yn poeni'n ddirfawr am ddyfodol yr Eglwys Anglicanaidd a'r hen ffordd wledig o fyw, wedi i gyfres o newidiadau gwleidyddol beryglu eu bodolaeth. Roedd popeth a oedd yn annwyl i Constable fel pe baent yn chwalu o'i gwmpas. Gallwn gymryd y paentiad hwn fel mynegiant o wewyr a phoen meddwl yr arlunydd mewn cyfnod anodd iawn yn ei fywyd.

Trodd Constable fwyfwy at y teulu Fisher o Gaersallog am gysur a chymorth emosiynol. Roeddent yn gefnogwyr cynnar o'i waith, ac wedi dod yn gyfeillion mynwesol iddo, yn enwedig yr Archddiacon John Fisher. Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod pen draw'r enfys – symbol o obaith wedi'r storm – i'w gweld yn Leadenhall, cartref y teulu Fisher.

## Techneg

Mae techneg arloesol Constable o farcio'r cynfas – techneg chwyldroadol ar y pryd – yn ategu effaith rymus y darn. Mewn oes pan oedd pobl yn disgwyl i arwyneb paentiad fod yn llyfn braf, roedd Constable yn defnyddio cyllell balet (gweler yr eirfa) a brwsys paent i greu arwynebau bras llawn mynegiant. Weithiau mae ei baent yn drwchus a garw; ac yn llyfn a thenau dro arall. Cafodd ei feirniadu'n gyson am ei dechneg. Dyma gŵyn un o'i gyfoedion: '*he dots and dabs and grubs and splashes, more strangely in each succeeding year*'.

***Rhagor o wybodaeth***

*Tate*
*http://www.tate.org.uk/art/artworks/constable-salisbury-cathedral-from-the-meadows-n01814*

*Y Gronfa Gelf*
*http://www.artfund.org/news/2013/05/23/constable-masterpiece-bought-for-the-nation*

*Smarthistory*
*http://smarthistory.khanacademy.org/constables-salisbury-cathedral-from-the-meadows.html*

### Manylu ar y manylion

Mae *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 yn frith o fanylion gweledol sy'n ein helpu i ddeall a datgelu ystyron y darn.

#### Eglwys Gadeiriol Caersallog

Pan beintiodd Constable lun o Eglwys Gadeiriol Caersallog, roedd dyfodol yr Eglwys Anglicanaidd yn y fantol. Roedd Rhyddfreinio'r Pabyddion, a oedd yn rhoi'r hawl i Babyddion bleidleisio, a'r Ddeddf Ddiwygio a basiwyd gan Dŷ'r Cyffredin, yn ymddangos fel pe baent yn bygwth dyfodol yr Eglwys. Dyn hynod grefyddol oedd Constable, ac roedd hyn yn ei boeni'n fawr. Yn y paentiad mae'n dangos yr Eglwys Gadeiriol dan gwmwl du, a mellten yn taro'r to – a ddaw drwy'r storm? Mae'r meindwr yn trywanu'r tywyllwch i lygedyn o oleuni, awgrym o'i obaith ar gyfer dyfodol yr eglwys.

#### Cymylau stormus

*'The sky is in a state of utter derangement'* – dyna oedd cwyn *The Morning Herald* pan gafodd y darlun ei arddangos am y tro cyntaf. Ond mae'n rhan allweddol o ystyr y darn. Nid cefnlen yn unig oedd yr awyr i Constable. Credai bod yr awyr yn gallu cyfleu naws ac emosiwn. Mae'r cymylau cythryblus yn cael eu hystyried fel mynegiant o'r galar a'r poen meddwl a deimlai ar y pryd.

#### Enfys

Meddai Constable unwaith: *'nature… exhibits no feature more lovely nor any that awaken a more soothing reaction than the rainbow'.* I Constable, roedd yr enfys yn cynrychioli llygedyn o obaith mewn dyddiau du, ac yn atgof o gyfamod Duw â dyn a holl fywyd y ddaear fel y cofnodwyd yn stori arch Noa. Mae'n pontio'r nefoedd a'r ddaear.

#### Leadenhall

Mae pen draw'r enfys i'w gweld yn Leadenhall, cartref yr Archddiacon John Fisher, a oedd yn gyfaill agos i Constable. Roedd Fisher wedi cynnig cysur a chymorth emosiynol i Constable yn ei alar. Diolch i'w ymweliadau â'r teulu y daeth Constable yn gyfarwydd ag Eglwys Gadeiriol Caersallog.

#### Pompren

Roedd Constable wedi dotio ar fanylion bach syml y bywyd gwledig. *'Old rotten planks, slimy posts, and brickwork, I love such things'* ysgrifennodd unwaith. Mae'r paent yma yn drwchus a garw, ac yn awgrymu gwedd a graen naturiol y bompren – manylyn syml na fyddai'r rhan fwyaf o arlunwyr y dydd wedi ystyried ei gynnwys.

#### Ceffylau a throl a chi

I Constable, nid oedd yr un tirlun yn gyflawn heb olion bywyd bob dydd. Byddai'n llenwi ei lyfrau braslunio â manylion bach, i'w hychwanegu at ei baentiadau. Yma, mae ceffylau a throl yn croesi'r afon Nadder a chi defaid yn edrych tuag at yr Eglwys Gadeiriol, er mwyn denu ein sylw ni efallai. Mae'r ci hwn yn ymddangos mewn paentiadau eraill gan Constable, fel *Y Cae Ŷd* (Oriel Genedlaethol, Llundain).

#### Coed

Mae lle blaenllaw i goeden onnen yn yr olygfa, sy'n edrych yn fwy na'r Eglwys Gadeiriol hyd yn oed. Wrth fôn y goeden ceir ysgawen, sy'n hawdd ei hadnabod diolch i'w blodau gwyn. Ysgrifennodd Constable *'it is a favourite of mine, but 'tis melancholy; an emblem of death'.* Mae'r onnen, ar y llaw arall, yn cael ei hystyried yn symbol o atgyfodiad, o fywyd wedi marwolaeth. Efallai fod hyn hefyd yn adleisio'r gobaith a awgrymir gan yr enfys, a gallai fod yn gysylltiedig â marwolaeth Maria neu dyfodol yr Eglwys Anglicanaidd.

### Cwestiynau cyffredin

**Pam mae'r paentiad mor fawr?**

Mae llawer o baentiadau cynnar Constable yn fach. Fel arfer, byddai'n peintio yn yr awyr agored, gan ddefnyddio cynfasau bach y gallai eu cario'n hawdd dan ei gesail. Ond tua 1818 dechreuodd beintio ar raddfa tipyn mwy, gan gynhyrchu cyfres o luniau chwe throedfedd anferth – ei Dirluniau Mawreddog – gan gynnwys yr olaf ohonynt, *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Heb os, byddai'r cynfasau wedi helpu i ddenu sylw yn arddangosfeydd yr Academi Frenhinol. Roedd hyn yn hollbwysig i godi proffil ei waith a helpu i ddenu prynwyr – erbyn hyn, roedd gan Constable wraig a theulu i'w cynnal.

***Rhagor o wybodaeth***

*'The Great Landscapes' (Tate)*
*[http://www.tate.org.uk/whats-on/tate-britain/exhibition/constable-great-landscapes](http://www.tate.org.uk/whats-on/tate-britain/exhibition/constable-great-landscapes)*

Trwy beintio ar gynfasau mor fawr, roedd Constable hefyd yn ceisio pwysleisio pwysigrwydd tirluniau. Ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd tirluniau'n cael eu hystyried yn ffurf israddol yn y byd celf. Aeth Constable ati i herio hyn, gan beintio ar raddfa anferthol a oedd fel arfer yn nodweddu paentiadau Hanesyddol aruchel (gweler yr eirfa, tud.22).

**Pam Caersallog?**

Cyfeillgarwch Constable â'r teulu Fisher oedd y rheswm dros ymweld â Chaersallog yn y lle cyntaf, a pheintio llun o'r Eglwys Gadeiriol wedyn. Fe wnaeth Constable gyfarfod â John Fisher, Esgob Caersallog, ym 1798. Roedd yr Esgob yn gefnogwr cynnar o'i waith. Ym 1811, cyfarfu â nai'r Esgob – John Fisher arall – a ddaeth yn gyfaill mynwesol. Bu Constable yn ymwelydd cyson â Chaersallog, gan aros yn Leadenhall, cartref y teulu. Roedd yn braslunio a pheintio yn ystod ei ymweliadau.

**Sut y cafodd ei wneud?**

Er bod Constable yn credu mewn peintio'n uniongyrchol o natur, mewn stiwdio y crëwyd *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Gwnaeth sawl braslun a phaentiad o'r Eglwys Gadeiriol o safbwyntiau gwahanol, a'u defnyddio wedyn i greu'r paentiad terfynol yn ei stiwdio. Nid yw'r paentiad yn gopi o'r olygfa fel yr oedd mewn gwirionedd chwaith – mae wedi symud ac addasu elfennau gwahanol o'r paentiad i greu'r cyfansoddiad terfynol. Sylwch ar eglwys fechan St Thomas ar yr ochr chwith, er enghraifft: does dim modd gweld yr eglwys o'r llecyn hwn mewn gwirionedd. Defnyddiodd frwsys a chyllell balet (gweler yr eirfa, tud.22) i beintio'r llun â phaent olew.

### Dylanwad ac ysbrydoliaeth

Dylanwad ac ysbrydoliaeth yw themâu sylfaenol yr arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 i'w weld ochr yn ochr â gweithiau gan dirlunwyr Prydeinig ac Ewropeaidd eraill ar hyd y canrifoedd sydd naill ai wedi dylanwadu ar Constable, neu wedi eu dylanwadu ganddo.

Astudiodd Constable waith y tirlunwyr cynnar yn ddyfal. Cymaint oedd ei obsesiwn â gwaith yr arlunydd Clasurol Claude Lorrain, er enghraifft, nes i'w wraig fygwth taflu ei ddarluniau o waith Claude allan drwy'r ffenestr! Roedd Constable yn honni bod dau fath o artist: rhai sy'n efelychu (copïo) a rhai sy'n arloesi (creu rhywbeth newydd). Penderfynodd mai arloeswr oedd am fod, gan honni ei fod wedi cael llond bol ar ddynwared gwaith arlunwyr eraill: *'[making] my performances look like the work of other men'.*

Mae'r arddangosfa hon yn gyfle i gyflwyno ac ystyried beth yw ystyr dylanwad a datblygiad ym myd celf. Mae hefyd yn gyfle i gymharu gweithiau tirlunwyr eraill ar draws y canrifoedd â *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 gan Constable.

### Gweithiau allweddol




*Glaw – Auvers,* 1890
Vincent van Gogh (1853-1890)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Cymynrodd Gwendoline Davies, 1952

Y paentiad hwn o gae gwenith yn Auvers, Ffrainc, yw'r un olaf a beintiodd van Gogh cyn iddo saethu ei hun. Fel *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831, gallwn ddehongli'r tywydd a'r dechneg o wneud marciau fel mynegiant o drallod personol. Roedd iselder ysbryd yn bla i van Gogh. Mewn llythyr a ysgrifennodd tua chyfnod y paentiad hwn, disgrifiodd ei brofiadau yn peintio *'immense expanses of wheat beneath troubles skies and I have not hesitated to express sadness, extreme loneliness'.* Mae arwyneb y cynfas yn drwch o baent, ac mae llinellau garw yn torri drwy wyneb paent er mwyn creu'r argraff ei bod yn treisio bwrw.



*Tirlun Creigiog gyda Hagar ac Ishmael,* tua 1788
Thomas Gainsborough (1727-1788)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Prynwyd, 1965

Roedd Constable yn edmygu effaith emosiynol tirluniau Gainsborough. *'On looking at them, we find tears in our eyes'* ysgrifennodd unwaith. Yn y paentiad hwn, mae Hagar, caethferch o'r Aifft, a'i mab Ishmael yn ymlwybro trwy'r goedwig yn chwilio am ddŵr. Cawsant eu halltudio i'r gwyllt gan eu meistri. Yma, mae'r dirwedd a'r defnydd dramatig o dywyllwch a goleuni yn cyfrannu at y naws. Mae'r coed tywyll trwchus yn cau'n fygythiol am y ddau, a dim ond llygedyn o olau haul sy'n cynnig rhywfaint o ryddhad. Gellir cymharu hyn â defnydd Constable o'r dafnau o oleuni yn yr awyr yn *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Dyma unig baentiad crefyddol Gainsborough, yn seiliedig ar stori Genesis. Gellir cysylltu'r enfys ym mhaentiad Constable â stori Genesis hefyd – mae stori Arch Noa yn esbonio ei symbolaeth grefyddol.



*Y Bore wedi'r Storm,* tua 1840-45
JMW Turner (1775-1851)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Cymynrodd Gwendoline Davies, 1952

Roedd Turner a Constable yn cystadlu'n gyson am sylw, ac yn mynd benben yn yr un arddangosfeydd yn aml. Roedd y ddau'n hoff o gyfleu effeithiau golau ar y dirwedd, ond yn defnyddio dulliau tra wahanol. Yma, mae Turner yn cyfleu awyrgylch y bore wedi'r storm. Mae'n debyg iddo gael ei ysbrydoli gan y stormydd geirwon a darodd Brydain ym 1840. Mae'r wawr yn gadael ei hôl ar dir a môr, ac mae rhyw niwl euraidd yn llenwi'r holl olygfa. Mae gwrthrychau a ffurfiau bron â diflannu'n llwyr. Disgrifiodd Constable baentiadau Turner fel '*just steam and light*'. Mae Turner wrth ei fodd yn creu effeithiau atmosfferig anghyffyrddadwy: ewyn, niwl, tân a tharth. Ar y llaw arall, roedd gan Constable fwy o ddiddordeb mewn ffurfiau, graen a gwedd, a chyfleu golau'n adlewyrchu oddi ar elfennau cyffyrddadwy'r dirwedd.

## Gwybodaeth gefndirol i athrawon: gweithiau eraill yn yr arddangosfa



*Tirlun*, 17eg ganrif
Gaspard Dughet (1615-1675)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Prynwyd gyda chefnogaeth y Gronfa Gelf, 1961

Y wlad o gwmpas dinas Rhufain ysbrydolodd y tirlun eang a golau hwn. Bu Constable yn astudio gweithiau tirlunwyr cynharach yn ddyfal. Roedd yn edmygu gwaith Dughet, ac yn ei argymell i dirlunwyr eraill. Er hynny, mae byd o wahaniaeth rhwng eu gweithiau. Mae tirluniau Dughet yn dilyn rheolau paentio tirluniau Clasurol (gweler yr eirfa), ac wedi'u strwythuro a'u dyfeisio'n ofalus dros ben. Mae arwyneb y paentiad yn llyfn a gwastad. Er bod Constable yn gyfarwydd â'r traddodiad tirluniau Clasurol, roedd yn ysu i greu rhywbeth newydd.



*Llyn Avernus gydag Arch Garreg,* tua 1760
Richard Wilson (1714-1782)
Olew ar gynfas
Amgueddfa Cymru
Prynwyd, 1934

Mae'r braslun bach hwn gan Richard Wilson, un o artistiaid mwyaf dylanwadol Cymru, yn dangos yr ardal sy'n amgylchynu Llyn Avernus – ardal gyfarwydd iawn i arlunwyr ac ymwelwyr â'r Eidal yn y ddeunawfed ganrif, fel Wilson. Roedd rhai'n credu mai dyma borth Hades, y fynedfa i'r isfyd neu deyrnas y meirw. Mae'r ffigurau yng nghysgod arch garreg enfawr, atgof o farwolaeth mewn tirwedd sy'n swynol fel arall. Eiddo Constable oedd y braslun hwn. Llwyddodd Wilson i ddangos i artistiaid Prydeinig bod modd defnyddio tirluniau i gyfleu awyrgylch, emosiynau a haenau o ystyron gwahanol – syniad a gafodd ddylanwad grymus ar Constable. Ond roedden nhw'n wahanol mewn ffyrdd eraill. Roedd Wilson mor hoff o olau euraidd, cynnes yr Eidal nes iddo'i gyflwyno i'w dirluniau Prydeinig. Ar y llaw arall, dim ond effeithiau'r tywydd a'r golau yr oedd yn nodweddiadol o Brydain yr oedd Constable yn eu peintio.

**Mwy:** Bydd arddangosfa *Richard Wilson a Gweddnewidiad Peintio Tirluniau Ewropeaidd* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rhwng 5 Gorffennaf a 26 Hydref 2014, mewn partneriaeth â'r Yale Center for British Art.

### Cyfres o fezzotintiau gan David Lucas

Bydd yr arddangosfa yn cynnwys cyfres o fezzotintiau (gweler yr eirfa) gan David Lucas, sy'n seiliedig ar frasluniau a phaentiadau gan Constable. Y nod oedd cyhoeddi'r printiau hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith Constable. Cydweithiodd Lucas yn agos â Constable arnynt, a bu yntau'n craffu'n ofalus ar bob print ac yn argymell pethau i'w newid a'u haddasu. Roedd Constable yn dal i fwrw golwg ar brint Eglwys Caersallog ddeuddydd cyn ei farwolaeth, ac yn awyddus i sicrhau bod Lucas yn cyfleu'r enfys yn berffaith. *'If it is not tender – and elegant – evanescent and lovely'* ysgrifennodd *'we are both ruined'*. Mae'r printiau yn tynnu sylw arbennig at effeithiau a phatrymau golau a chysgod yng ngwaith Constable.

## Edrych ar Dirluniau

Cwestiynau arweiniol er mwyn annog plant i edrych ar dirluniau ac ymateb iddynt:

Beth yw'r peth cyntaf rydych chi'n ei sylwi arno yn y paentiad hwn?

Beth welwch chi? Beth sydd ym mlaendir (rhan flaen y paentiad), tir canol a chefndir y llun?

Pa fath o dirwedd sydd ynddo? *Cefn gwlad, dinas, glan y môr.* Ydych chi'n gwybod pa dymor/adeg o'r dydd yw hi?

Disgrifiwch y tywydd. Ydych chi erioed wedi gweld tywydd o'r fath erioed o'r blaen? Sut oeddech chi'n teimlo?

Os oes pobl neu anifeiliaid yn y llun, beth maen nhw'n ei wneud? Pam mae'r arlunydd wedi'u cynnwys nhw? *Er mwyn dangos y dirwedd yn cael ei defnyddio, er mwyn cyfleu emosiwn*.

Dychmygwch eich bod yn mynd am dro drwy'r dirwedd hon. Beth allwch chi ei glywed? Ei arogli?

Sut deimlad fyddai cyffwrdd â gwahanol rannau o'r dirwedd? *Llyfn, creigiog, llaith*. Ydych chi'n hoffi bod yno? Pam?

Beth, yn eich barn chi, yw rhan bwysicaf y dirwedd? Pam felly?

Yw'r llun yn eich atgoffa chi o rywle? Ai lle go iawn neu ddychmygol yw hwnnw?

Pa liwiau gwahanol welwch chi? Ydyn nhw'n edrych yn realistig? Pam mae'r arlunydd wedi defnyddio'r lliwiau hyn?

Pa ddeunyddiau mae'r arlunydd wedi'u defnyddio i greu'r llun? Ydych chi'n gwybod pa fath o baent mae wedi'i ddefnyddio? Disgrifiwch y paent… *dyfrllyd, trwchus, lliwgar*.

Edrychwch ar yr olion a wnaed gan frws yr arlunydd. Disgrifiwch nhw… *smotiau, dafnau, llyfn, troellog*.

Beth yw maint y llun? Sut mae'r maint yn gwneud i chi deimlo?

Beth ydych chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am y llun? Pam?

Pam, yn eich barn chi, mae'r arlunydd wedi peintio'r llun? A yw'n cyfleu stori neu neges?

## Paratoi ar gyfer eich ymweliad

### Beth am gyflwyno'r paentiad i'ch disgyblion cyn dod i'r Amgueddfa? Gallwch wneud y canlynol:

**Gofyn cwestiynau.** Mae rhestr o gwestiynau posibl yn yr adran 'Edrych ar Dirluniau' ar y dudalen flaenorol. Gofynnwch i'r disgyblion greu rhestr o gwestiynau eu hunain – pethau yr hoffen nhw wybod am y paentiad. Tybed faint o atebion allwch chi gael fel dosbarth?

**Chwarae gêm 'Ydych chi'n cofio?'** Rhowch funud i'r disgyblion edrych ar lun o'r paentiad. Yna cuddiwch y llun. Faint o fanylion maen nhw'n eu cofio?

**Labelu'r paentiad.** Crëwch restr o enwau – *meindwr, coeden, pont*. Ychwanegwch ansoddair – *meindwr tal, pont simsan*.

### Gofynnwch i'r disgyblion wneud rhywfaint o waith ymchwil a chreu arddangosfa yn y dosbarth yn seiliedig ar un o'r canlynol:

**Tirluniau.** Beth yw tirlun? Beth fyddech chi'n ei weld mewn tirlun? Pam mae arlunwyr yn peintio tirluniau? Dolen ddefnyddiol: Ymweliad â'r Oriel Gelf – casgliadau celf hanesyddol http://www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/caerdydd/athrawon/ tudalennau 33-42.

**John Constable.** Chwiliwch am enghreifftiau o'i waith. Chwiliwch am enghreifftiau eraill sy'n cynnwys Eglwys Gadeiriol Caersallog, storm neu enfys. Allwch chi weld ci defaid yn un o'i baentiadau eraill?

**Caersallog (Salisbury).** Chwiliwch am y dref hon ar fapiau neu ar Google Earth. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau er mwyn ymchwilio i agweddau gwahanol ar yr ardal (hanes, nodweddion daearyddol, beth sydd yno heddiw). Adroddwch yn ôl mewn cyflwyniad dosbarth.

**Eglwysi Cadeiriol**. Beth yw eu diben? Nodweddion gwahanol Eglwys Gadeiriol. Ymchwiliwch i hanes Eglwys Gadeiriol Caersallog. Trefnwch daith fraslunio i Eglwys Gadeiriol leol.

**Enfys**. Beth yw enfys? Sut maen nhw'n cael eu ffurfio? Ewch ati i ddarganfod ystyr symbolaidd yr enfys mewn chwedloniaeth, crefydd a diwylliannau gwahanol.

**CA3/4: Rhyddfreinio'r Pabyddion a Deddf Ddiwygio 1831.** Sut mae'r delweddau a ddefnyddir yn y paentiad hwn yn gysylltiedig â'r digwyddiadau cythryblus hyn? Gwefan ddefnyddiol: http://smarthistory.khanacademy.org/constables-salisbury-cathedral-from-the-meadows.html.

**CA3/4: Arlunwyr Barbizon**. Dysgwch fwy am ddylanwad Constable ar arlunwyr Barbizon. Meddyliwch sut y gellir defnyddio'r dirwedd a'r tywydd i gyflwyno syniadau am faterion cymdeithasol a gwleidyddol. Cymharwch *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 ag *Y Chwa o Wynt* gan Jean-François Millet http://www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein/?action=show_item&item=1321.

### Y Cyfnod Sylfaen: themâu a gweithgareddau

**Mi wela i.** Beth allwch chi ei weld?

**Synau.** Nodwch synau yn y llun (taranau, ci, dŵr yn tasgu). Ail-grëwch nhw gydag offerynnau cerdd.

**Stormydd.** Beth yw storm? Elfennau gwahanol (taran, cymylau). Straeon a cherddi am stormydd. Cadw'n ddiogel mewn storm.

**Cymylau.** Siapiau, patrymau, lliwiau. Chwilio am gymylau. Creu collage neu symudyn (*mobile*) cymylau.

**Enfys.** Gwnewch eich enfys eich hun. Caneuon am enfys.

**Gwisgo a chwarae rôl.** Ail-grëwch stiwdio'r artist yn y dosbarth. Ewch i fraslunio yn yr awyr agored.

**Adeiladau.** Adnabod gwahanol fathau o adeiladau crefyddol.

**Afonydd.** Ar gyfer beth maen nhw'n cael eu defnyddio? Ffyrdd gwahanol o groesi afon. Afonydd ddoe a heddiw. Diogelwch ger y dŵr.

# Dylanwad ac Efelychiant

*CA2-CA3, Celf a Dylunio*

**Amcanion dysgu:**

deall diben arddangosfa mewn amgueddfa

gallu disgrifio'r gwahaniaeth rhwng dylanwad ac efelychiant

cofnodi gwaith arlunwyr trwy arsylwi'n uniongyrchol, a defnyddio hyn i archwilio syniadau personol

## Cyn eich ymweliad

**Trafodwch: *Beth yw amgueddfa? Beth yw arddangosfa neu arddangosiad? Beth yw curadur?*** Mae curaduron yn creu arddangosiadau drwy roi grwpiau o wrthrychau gyda'i gilydd er mwyn i bobl eraill eu gweld. Yn aml, mae'r gwrthrychau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd e.e. casgliad o wrthrychau yn ymwneud â chŵn; casgliad o bortreadau. **Gallwch chi fod yn guradur!** Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am enghreifftiau o bethau neu wrthrychau maen nhw wedi'u grwpio gyda'i gilydd – ffotograffau mewn albwm, lluniau ar Pinterest, neu eitemau ar gwpwrdd wrth ymyl y gwely er enghraifft. Beth oedd y gwrthrychau hyn, a pham eu dewis nhw?

## Yn yr oriel

**Gofynnwch i'ch disgyblion edrych o gwmpas yr oriel. Pam mae'r curadur wedi dewis y gweithiau hyn? Oes thema gyffredin?** Mae llawer o'r gweithiau yn yr arddangosfa gan arlunwyr sydd naill ai wedi dylanwadu ar Constable neu wedi cael eu dylanwadu ganddo. Beth yw ystyr 'dylanwadu'? Oes rhywun wedi dylanwadu arnyn nhw erioed? Efallai fod eu hoff seren bop neu actor wedi dylanwadu ar eu dillad neu steil gwallt. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dylanwadu ac efelychu?

**Trafodwch *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831**. Defnyddiwch y cwestiynau 'Edrych ar Dirluniau' (tud.10) i sbarduno'r drafodaeth. Dewiswch baentiad arall o'r arddangosfa a'i gymharu â *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Beth sy'n debyg neu'n wahanol? Meddyliwch am faint y llun, y testun, lliw, y defnydd o olau, naws, tywydd, techneg. Ai gwaith gan arlunydd sydd wedi ysbrydoli Constable ydyw, neu waith a ysbrydolwyd gan Constable? Bydd labeli'r oriel yn rhoi syniad i chi.

**Nawr, esboniwch eu bod yn mynd i gasglu gwybodaeth er mwyn eu helpu i greu tirlun wedi'i *ddylanwadu* gan arlunydd arall**. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis un neu ddau dirlun; a'u copïo yn eu llyfr braslunio. Anogwch nhw i gofnodi cymaint ag y bo modd o fanylion i'w helpu nôl yn yr ysgol: enw'r arlunydd, teitl y paentiad, nodiadau am liw, maint, gwead, techneg a marciau.

## Nôl yn yr ysgol

- Gofynnwch i'r disgyblion beintio eu tirlun eu hunain wedi'i ddylanwadu naill ai gan *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831, neu un o'r gweithiau eraill a welsant. Ni ddylai fod yn gopi uniongyrchol. Hwyrach eu bod wedi'u hysbrydoli gan y lliwiau neu'r math o farciau a ddefnyddiwyd, er enghraifft.
- Defnyddiwch y paentiadau hyn i guradu eich arddangosfa ystafell ddosbarth eich hun. Gadewch i'r disgyblion ddewis lle i osod y lluniau, ac ysgrifennu eu labeli eu hunain. Tynnwch luniau o'r paentiadau â chamera a pharatoi catalog o arddangosfa'r dosbarth (TGCh).

# Goleuni Beirniadol

*CA2*

*Celf a Dylunio, Gwyddoniaeth, Llythrennedd, Cyfathrebu*

Pan gafodd *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 ei arddangos am y tro cyntaf, cafodd y wasg fodd i fyw. Nid oedd pawb yn hoffi'r ffordd roedd Constable wedi cynrychioli'r golau yn y tirlun hwn. Mewn tirluniau Clasurol traddodiadol (gweler yr eirfa) mae'r golau'n glir, yn gydnaws ac yn ymestyn yn gyson ar hyd wyneb y cynfas. Mae'n feddal a gwridog, yn awgrymu rhyw fath o Arcadia lle mae popeth yn berffaith a heddychlon. Ond nid rhyw Arcadia ddychmygol odd yn mynd â bryd Constable. Roedd am beintio'r gwir. Un o'r pethau pwysicaf a ddysgodd fel myfyriwr yw nad yw golau yn aros yn llonydd – mae'n symud ac yn newid o hyd. Yn *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831, defnyddiodd ddafnau bach o baent gwyn i awgrymu golau'n mynd a dod ar draws y dirwedd, ac yn adlewyrchu oddi ar wyneb y dŵr. Mae rhai pobl wedi galw hyn yn 'eira Constable'.

**Amcanion dysgu:**

arsylwi ar, ac ystyried, defnydd Constable o olau

archwilio rôl beirniaid celf, a chyfathrebu eu hymatebion beirniadol eu hunain

llunio sylwadau ar nodweddiol ffisegol golau

***Enghreifftiau o ymatebion beirniadol i'r paentiad:***

'*Somebody has spoiled [this landscape]… by spotting the foreground all over with whitewash. It is quite impossible that this offence can have been committed with the consent of the artist*' (*The Times*, Mai 1831)

*'The View of Salisbury Cathedral… appears to have been taken immediately after a snow storm… The numerous patches of dead white, intended for the lights of the picture, or perhaps for drops of rain after a shower, have all the chilling coldness of a winter's morn'* (*The Gentleman's Magazine*, Mai 1831)

*'[if only] the artist could have avoided scattering his lights about in a manner that.. renders it almost painful to the eye... We have had some opportunities of examining English scenery under various circumstances, but we never saw the sober light of our northern sun so broken into bits'* (*The Examiner*, 3 Gorffennaf 1831)

*'The glittering white speckly effects [are] so offensive to the eye'* (*Library of the Fine Arts*, Mehefin 1831)

Daw'r dyfyniadau hyn, a mwy, o Judy Crosby Ivy, *Constable and the Critics 1802-1837* (Woodbridge, The Boydell Press, 1991)

## Cyn eich ymweliad

Cyflwynwch y term 'beirniad'. Beth mae'n ei olygu? Beth mae beirniad yn ei wneud? Ydy'r disgyblion erioed wedi darllen adolygiad o lyfr, cân, dyfais neu gêm gyfrifiadurol? Ydyn nhw erioed wedi clicio ar fotwm 'hoffi' ar Facebook? Ydyn nhw wedi ysgrifennu blog i fynegi barn? Dyma enghreifftiau o feirniadu. Esboniwch eich bod chi am fynd i'r arddangosfa, a bydd pawb yn feirniaid am y dydd.

# Goleuni Beirniadol, parhâd

## Yn yr oriel

**Trafodwch *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831**, gan ddefnyddio'r adran 'Edrych ar Dirluniau' i sbarduno'r trafodaeth. Talwch sylw arbennig i'r modd mae Constable wedi peintio'r golau. Gofynnwch i'r disgyblion giledrych ar y llun – lle mae'r rhannau mwyaf golau/tywyll? Ydyn nhw'n gallu gweld unrhyw effeithiau golau (adlewyrchiadau, enfys, mellten, cysgodion)? Pa effeithiau neu ffynonellau golau eraill allech chi eu gweld mewn tirlun? Allwch chi weld enghreifftiau eraill yn yr oriel?

**Chwiliwch**… am baentiad gyda golau cynnes braf; paentiad heb fawr o olau; paentiad â golau clir oer.

**Chwarae Rôl.** Ewch â 'phrops' chwarae rôl gyda chi – 'het beirniad' er enghraifft. Ysgrifennwch yr ymatebion beirniadol uchod ar ddarnau o bapur (mewn iaith addas i oedran darllen eich dosbarth), a rhowch bob un mewn amlen. Gofynnwch i bedwar gwirfoddolwr fod yn feirniaid. Bydd pob un yn gwisgo'r het beirniad yn ei dro, yn dewis amlen, ac yn darllen y sylwadau. Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'u llais beirniadol gorau!

**Gofynnwch i'r disgyblion:** Ydych chi'n gwybod os oedd y beirniaid yn hoffi'r gwaith ai peidio? Beth yw'r cliwiau? Pa eiriau ddefnyddion nhw i ddisgrifio dull Constable o beintio golau? Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno? Oes golwg realistig i'r llun? Cymharwch â phaentiadau eraill yn yr oriel.

**Nawr, gofynnwch i bawb wisgo het beirniad dychmygol.** Gofynnwch iddyn nhw feddwl am eiriau neu frawddegau i ddisgrifio techneg Constable a'i ffordd o beintio golau. Meddyliwch am bethau canmoliaethus (pethau rydych chi'n eu hoffi) neu negyddol (pethau dydych chi ddim yn eu hoffi) i'w dweud am y paentiad. Anogwch y disgyblion i wneud nodiadau a chofnodi eu barn.

## Nôl yn yr ysgol

- Mae'r disgyblion yn ysgrifennu adolygiadau beirniadol eu hun. Postiwch nhw ar flog y dosbarth, neu defnyddiwch gamera fideo i gyfweld eich beirniaid. Byddai curaduron yr Amgueddfa wrth eu boddau'n darllen barn eich beirniaid! E-bostiwch nhw: addysg@amgueddfacymru.ac.uk.
- Ewch ati i ymchwilio ac arsylwi ar effeithiau golau gwahanol. Gwnewch lun o wrthrychau naturiol dan ffynonellau golau gwahanol, neu oleuadau lliw.
- Ymchwiliwch i enfysau. Sut maen nhw'n cael eu ffurfio? Beth sy'n digwydd pan fo pelydryn o olau yn mynd drwy brism? Chwiliwch am luniau o enfysau gan artistiaid eraill (ewch i wefannau BBC *Your Paintings* neu'r Tate). Ewch ati i greu collage neu baentiad eich hun o enfys.
- **Arlunwyr eraill i'w hymchwilio**: Richard Wilson, JMW Turner, yr Argraffiadwyr. Dolen: Adnodd Dysgu Argraffiadaeth a Chelf Fodern, tudalennau 14-21 www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/caerdydd/athrawon.

# Gadael ei farc

*CA2-CA3*
*Celf a Dylunio, Llythrennedd*

Roedd techneg Constable yn chwyldroadol yn ei ddydd. Yn draddodiadol, roedd llawer o arlunwyr yn credu y dylai fod gan baentiadau arwyneb esmwyth, ac y dylid llyfnu'r holl olion brwsio nes eu bod yn anweladwy i bob pwrpas. Ond roedd Constable yn anghytuno. Defnyddiodd farciau a thechnegau marcio gwahanol i greu amrywiaeth o weadau ar arwyneb ei baentiadau. Roedd yn tasgu, crafu a rhwbio'r paent ar y cynfas. Mae arwyneb bywiog ei baentiadau yn awgrymu gwead garw'r byd naturiol, ac yn cyfrannu at naws ac awyrgylch y gwaith. Ond doedd y dechneg hon ddim at ddant pawb. Dywedodd un beirniad fod y paentiadau yn ymddangos mor fras ac anorffenedig, fel mai ar draws cae pedair erw oedd y ffordd orau o edrych arnynt! Ond roedd Constable yn mynnu y dylai pawb fod yn agos i'w baentiadau i edrych arnynt yn fanwl. Roedd am i bobl sylwi ar gyfoeth amrywiol y marciau a'r gweadau. Mae *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 yn dangos ôl llaw Constable i'r dim.

**Amcanion dysgu:**

ymchwilio i amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau gwahanol o wneud marciau

adnabod a ffurfio geirfa i ddisgrifio marciau gwahanol mewn paentiad

gwerthfawrogi sut y gellir defnyddio marciau i gyfleu naws ac ystyr arbennig

Rhhagor o wybodaeth am dechneg Constable: http://www.tate.org.uk/whats-on/tate-britain/exhibition/constable-great-landscapes/constable-great-landscapes-techniques

## Cyn eich ymweliad

**Trafodwch**: Beth yw marc? Rhywbeth sy'n cael ei adael ar ôl, wedi'i *gyffwrdd* gan rywbeth arall. Gofynnwch i'r disgyblion greu rhestr o eiriau neu ffyrdd gwahanol o gyffwrdd rhywbeth arall: gwasgu, rhwbio, crafu, llyfnu, tylino, pinsio, pigo, cosi. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu bod ganddynt baent ar eu bysedd. Pa farciau fyddai'r cyffyrddiadau gwahanol hyn yn eu gadael ar ôl? Rhowch gynnig arnynt.

**Trafodwch**: Sut mae arlunwyr yn creu marciau? Pa fathau gwahanol o offer maen nhw'n ei ddefnyddio? Trefnwch sesiwn trin a thrafod offer a deunyddiau'r artist (brwsys bach a mawr, cyllyll palet, sbyngau, tiwbiau paent ac ati).

**Gallwch ddefnyddio unrhyw beth bron iawn i greu marc**. Gofynnwch i ddisgyblion gasglu deunyddiau gwahanol. Rhowch gynnig ar ddeunyddiau naturiol (cerrig, brigau, glaswellt, mwd), deunyddiau gwneud (brws dannedd, gwlân cotwm, darnau o gardbord, sgwrwyr, hen sanau) ac offer arlunwyr. Arbrofwch gyda chymaint o farciau gwahanol â phosibl. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eiriau i ddisgrifio'r marciau neu beth mae'r marciau yn eu hatgoffa ohonynt e.e. tew a throellog, pigog, pantiog fel arwyneb y lleuad.

# Gadael ei farc, parhâd

## Yn yr oriel

**Dywedwch wrth y disgyblion eu bod yn dditectifs celf am y dydd.** Eu tasg yw ceisio canfod pa fath o offer a chyfarpar a ddefnyddiodd yr arlunwyr i beintio. Gallant ddefnyddio eu portffolio o farciau i'w helpu. Gall disgyblion gymryd eu tro i edrych ar y paentiad yn fanwl, ond peidiwch â mynd yn rhy agos ato na chyffwrdd â'r paentiadau chwaith.

**Trafodwch *Tirlun* gan Gaspard Dughet.** Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r paent – a yw'n drwchus, yn denau, yn llyfn, yn arw, yn ddiferllyd? Yn eu barn nhw, ydy'r arlunydd wedi peintio hwn yn araf a gofalus, neu gyflym? Pam? Allwch chi weld unrhyw farciau? Pa offer ddefnyddiodd yr arlunydd?

**Cymharwch â *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831.** Os yw'r disgyblion wedi gweld copi ohono cyn ymweld â'r Amgueddfa, a yw'n wahanol neu'n debyg i'r disgwyl? Sut? Edrychwch ar un darn ar y tro (awyr, dŵr, glaswellt, coed) a gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eiriau i ddisgrifio'r marciau. Sut cafodd y marciau eu creu? Meimiwch hynny. Roedd un adolygydd o'r farn fod Constable wedi peintio gyda bodiau ei draed! Pam ddywedodd y beirniaid hynny?

**Edrychwch ar weithiau eraill yn yr oriel.** Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ansoddeiriau, cyffelybiaethau a throsiadau creadigol i ddisgrifio'r marciau. Rhowch gynnig ar bersonoli: pe bai'r marciau hyn yn gymeriad, yn deimlad neu'n emosiwn, beth fydden nhw?

**Byddwch yn dditectif celf.** Yn oriel 16A ceir arddangosfa o weithiau a gyflwynwyd i'r Amgueddfa gan y chwiorydd Davies. Roedden ni'n meddwl ar un adeg mai paentiadau gan Constable oedden nhw, ond dydyn ni ddim mor sicr bellach. Mae marciau mewn paentiad yn gallu rhoi cliw i ni ynglŷn â phwy yw'r arlunydd. Efallai fod y disgyblion wedi gweld rhaglen y BBC *Fake or Fortune*. Gofynnwch iddyn nhw astudio'r lluniau yn ofalus – ai gwaith Constable ydynt ai peidio?

**Arlunwyr eraill i'w hymchwilio:** Turner, Frank Auerbach, van Gogh.

## Nôl yn yr ysgol

- Gwnewch fersiwn dosbarth maint llawn o *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831. Amlinellwch y siapiau sylfaenol. Yna, gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau a pheintio darn o'r llun ar y tro, gan ddefnyddio techneg farcio wahanol.
- Trafodwch y cysylltiad rhwng teimladau a marciau. Gofynnwch i'r disgyblion greu marciau blin, marciau hapus, marciau cyffrous, marciau llonydd braf. Peintiwch i gerddoriaeth – sut mae'r gerddoriaeth yn effeithio ar y marciau?

# Awyr a chydymdeimlad I

*CA2-CA3*
*Celf a Dylunio, Daearyddiaeth, ABCh, Llythrennedd*

Dywedodd Constable y dylai'r awyr mewn tirlun *gydymdeimlo* â'r pwnc. Roedd yn credu bod yr awyr yn fwy na chefnlen. Mae'n gallu cael ei ddefnyddio gan arlunwyr i greu awyrgylch neu naws emosiynol. Mae'r awyr dymhestlog yn *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 yn cael ei ystyried yn fynegiant o drallod personol Constable ar y pryd. Gall yr enfys a'r dafnau o awyr las glir fod yn cynrychioli llygedyn o obaith ar gyfer y dyfodol.

**Amcanion dysgu:**

nodi'r ffyrdd gwahanol y gellir defnyddio'r awyr i greu naws neu awyrgylch neu adlewyrchu teimladau personol, gan ddefnyddio profiad personol

annog y disgyblion i ddatblygu aeddfedrwydd a chydymdeimlad emosiynol â'r cyflwr dynol

## Cyn eich ymweliad

**Ewch allan i'r awyr agored a gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eiriau i ddisgrifio'r tywydd**. Ydy hi'n wyntog, yn boeth, yn drymaidd, yn gymylog? Gofynnwch: beth allwch chi ei deimlo yn erbyn eich croen? Beth allwch chi ei glywed? Ydych chi'n hoffi tywydd fel hyn? Pe bai'r tywydd yn emosiwn, pa fath o emosiwn fyddai? Dewiswch symbol emosiwn eich ffôn symudol fel symbol o'r tywydd hwn.

**Trafodwch fathau gwahanol o dywydd a sut maen nhw'n gysylltiedig ag awyrgylch neu emosiynau gwahanol.** Sut hwyliau sydd ar y plant ar ddiwrnod braf/glawog/oer/stormus? Trafodwch dywydd y tymhorau gwahanol. Ym mha dymor mae'r plant hapusaf/tristaf? Pam?

**Daearyddiaeth yn y Newyddion**. Mae tywydd stormus tu hwnt a llifogydd difrifol wedi taro Cymru a rhannau eraill o Brydain yn ddiweddar. Gofynnwch i'r disgyblion ddod â straeon a chlipiau newyddion i'r dosbarth. A gafodd yr ardal leol ei heffeithio? Rhannwch brofiadau. Sut mae'r tywydd a'r llifogydd wedi effeithio ar bobl? Ysgrifennwch lythyr neu ddyddiadur gan rywun sydd wedi colli cartref oherwydd y tywydd gwael. Beth ddigwyddodd? Beth oedd eu hymateb?

**Cadwch ddyddiadur tywydd dosbarth**. Ewch ati i arsylwi a chofnodi unwaith yr wythnos. Cymrwch ffotograffau. Gofynnwch i'r disgyblion nodi sut mae'r tywydd yn gwneud iddynt deimlo'r diwrnod hwnnw.

**Ewch ati i gasglu ac archwilio idiomau, diarhebion, cyffelybiaethau a throsiadau am y tywydd** e.e. bwrw hen wragedd a ffyn, Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw, digon oer i rewi brain, eira mân eira mawr, bwrw haul, pistyllio bwrw. Gofynnwch i'r disgyblion greu rhai newydd eu hunain.

# Awyr a chydymdeimlad I, parhâd

## Yn yr oriel

**Rhowch gyfle i'r disgyblion ddod i adnabod y llun**. Rhannwch brofiadau – ydyn nhw wedi bod allan mewn tywydd fel hyn o'r blaen? Ydyn nhw wedi gweld enfys? Sut brofiad oedd e? Dywedodd yr artist Henry Fuseli fod edrych ar baentiad gan Constable yn gwneud iddo afael yn ei got aeaf a'i ymbarél. Beth oedd yn ei olygu? Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod yn sefyll yng nghanol y paentiad. Beth fydden nhw'n ei wisgo? Beth fydden nhw'n ei wneud? Disgrifiwch y dirwedd trwy ddefnyddio synhwyrau gwahanol (e.e. sŵn y fellten, blas y glaw).

**Cymharwch *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 â *Bwthyn mewn Cae Ŷd***. Ystyriwch y tywydd, yr awyr, y bobl a'r anifeiliaid, lliw, golau a thywyllwch. Cawsant eu peintio ar adegau gwahanol iawn ym mywyd Constable. Maen nhw'n cyfleu emosiynau gwahanol. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio a chymharu naws ac awyrgylch wahanol y paentiadau. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis nodwedd neu elfen o'r paentiadau hyn (anifail, unigolyn neu adeilad hyd yn oed). Ysgrifennwch fonolog yn mynegi teimladau'r unigolyn neu'r gwrthrych hwnnw.

Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am enghreifftiau o effeithiau'r tywydd sy'n eu gwneud nhw'n hapus/trist/cyffrous/ofnus, a thynnu llun o hynny.

**Beth am hefyd ystyried:** van Gogh, Turner, *Y Chwa o Wynt* gan Millet (nid yn yr oriel hon – ewch ar-lein i sicrhau fod y gwaith yn cael ei arddangos)
www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein/?action=show_item&item=1321

## Nôl yn yr ysgol

- Perfformiwch eich monolog gerbron y dosbarth.
- Darluniwch eich fersiwn eich hun o *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 ond newidiwch y tywydd i fynegi emosiynau gwahanol (llawenydd, dicter, dryswch, ofn).
- Ysgrifennwch a recordiwch fwletin tywydd ar gyfer *Salisbury Cathedral for the Meadows* 1831. Holwch y dyn yn y cwch.
- Ysgrifennwch eiriau ar gyfer eich cân teimladau tywydd eich hun.

# Awyr a chydymdeimlad II

*CA3-CA4*
*Celf a Dylunio, Saesneg, Astudiaethau Crefyddol*

**Amcanion dysgu:**

archwilio sut y gellir defnyddio'r tywydd a'r dirwedd i fynegi teimladau neu emosiynau mewn celf a llenyddiaeth

cymharu a deall sut mae pobl wedi gweld newidiadau yn y dirwedd fel arwyddion gydag arwyddocâd crefyddol neu ddiwylliannol

Pan gafodd y paentiad hwn ei arddangos am y tro cyntaf yn yr Academi Frenhinol, fe wnaeth Constable gynnwys dyfyniad o'r gerdd *The Four Seasons: Summer* (1727) gan James Thompson, bardd o'r Alban, yng nghatalog yr arddangosfa. Mae'r dyfyniad yn disgrifio storm yn gostegu, a'r haul yn cyrraedd wedi cyfnod o dywydd arbennig o wael. Gydol y gerdd, mae'r tywydd yn cael ei ddehongli fel cyfres o arwyddion gan Dduw. Mae'r enfys, er enghraifft, yn cyrraedd fel arwydd o'r nefoedd ('*signs of danger past*'). Mae'n gysylltiedig â hanes arch Noa yn y Beibl, lle caiff enfys ei hanfon fel atgof o addewid Duw i ddyn. Mae'r gerdd yn cyfleu darlun o ddyn ar drugaredd Duw hollbwerus.

*As from the face of heaven the scatter'd clouds*
*Tumultous rove, th'interminable sky*
*Sublimer swells, and o'er the world expands*
*A purer azure. Through the lightened air*
*A higher lustre and a clearer calm*
*Diffusive tremble; while, as if in sign*
*Of danger past, a glittering robe of joy,*
*Set off abundant by the yellow ray,*
*Invests the fields, and nature smiles reviv'd*

James Thompson, *Summer* (llinellau 1223-1231)

Y gerdd yn ei chyfanrwydd: https://archive.org/details/seasons00thom3

Mae hyn o gymorth i esbonio ystyr y paentiad. Mae llinellau 1169-1222 y gerdd, sydd yn union cyn y llinellau a ddyfynnir uchod, yn adrodd hanes trist y cariadon ifanc Celadon ac Amelia. Wrth grwydro trwy fynyddoedd garw Sir Gaernarfon, cawsant eu dal yng nghanol storm hafaidd enbyd. Mae Amelia yn cael ei tharo gan fellten, ac yn marw ym mreichiau Celadon.

Mae'n stori sy'n atseinio galar personol Constable. Bu farw Maria ei wraig o'r diciâu ychydig cyn hynny, wedi deuddeg mlynedd o briodas. Ar ben hynny, mae'n debyg bod y gerdd yn hynod arwyddocaol i'r cwpl ifanc: gwyddom i Constable ddyfynnu llinellau o'r gerdd i Maria er mwyn ceisio'i denu i'w briodi. Nid yw *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 yn ddarlun uniongyrchol o'r chwedl hon, fodd bynnag. Nid yw Constable yn cynnwys ffigurau Celadon ac Amelia yn y paentiad. Yn hytrach, mae'n cyfleu emosiynau a theimladau'r chwedl trwy bortreadu'r tywydd a'r dirwedd.

# Awyr a chydymdeimlad II, parhâd

## Cyn eich ymweliad

**Ymchwiliwch i'r gerdd *The Seasons***, yn enwedig hanes Celadon ac Amelia.

**Chwiliwch am baentiadau sy'n seiliedig ar y stori**. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu'r paentiadau hyn heb ffigurau Celadon ac Amelia. Chwiliwch am enghreifftiau lle mae'r dirwedd yn cyfrannu at naws emosiynol y paentiad. Sut mae'r arlunydd yn llwyddo i gyflawni hyn? Meddyliwch am y defnydd o olau a chysgodion, effeithiau'r tywydd, nodweddion naturiol (siâp, lliw a maint y coed, clogwyni), cyfansoddiad, deunyddiau a thechnegau.

**Archwiliwch symbolaeth y tywydd a'r dirwedd yn y gerdd**. Beth yw rôl y tywydd yn y gerdd? Trafodwch symbolaeth grefyddol – y tywydd fel symbol o berthynas dyn a Duw.

## Yn yr oriel

**Trafodwch fanylion *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831**. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu nodiadau am naws emosiynol y dirwedd, a meddwl sut y cafodd ei chreu.

**Dewiswch dirlun yn unrhyw un o'r orielau, sy'n creu effaith emosiynol rymus**. Ysgrifennwch nodiadau am sut mae'r arlunydd wedi creu'r effaith hon. Pe bai'r tirlun hwn yn cyfleu emosiwn neu deimlad, beth fyddai hynny?

**Beth am ystyried**: *Glaw* gan van Gogh o gymharu â *The Rainy Day* gan Henry Wadsworth Longfellow (hawdd ei gael ar-lein).

## Nôl yn yr ysgol

- Ysgrifennu creadigol: ysgrifennwch gerdd neu crëwch eich stori eich hun yn seiliedig ar dirlun o'ch dewis.
- Cynlluniwch set llwyfan ar gyfer drama sy'n seiliedig ar hanes Celadon ac Amelia. Gofalwch fod tirwedd y set yn cyfleu naws neu emosiwn y stori.
- Meddyliwch am adeg yn eich bywyd pan gawsoch chi deimladau neu emosiwn cryf, neu pan aethoch chi drwy newid mawr. Does dim rhaid i chi ddewis cyfnod anodd – efallai'ch bod wedi llwyddo mewn rhyw her, wedi symud cartref, neu wedi croesawu aelod newydd i'r teulu. Gwnewch restr o'r emosiynau gwahanol y gwnaethoch eu teimlo ar y pryd. Sut fyddech chi'n mynegi hyn trwy ddefnyddio'r tywydd a nodweddion o'r dirwedd? Peintiwch eich tirlun emosiynol eich hun yn seiliedig ar y profiad hwn.
- Gall y tywydd effeithio arnom ar lefel sylfaenol iawn. Trafodwch sut mae'r tywydd yn gallu cael effaith ddifrifol ar iechyd rhai pobl e.e. Anhwylder Affeithiol Tymhorol (SAD).
- Trafodaeth ddosbarth. Yn aml caiff tywydd gwael ei weld fel canlyniad i weithredoedd pobl: fel cosb gan Dduw neu fod uwch er enghraifft, neu'n fwy diweddar yn ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am enghreifftiau yn y Beibl neu mewn testunau sanctaidd eraill, chwedlau, llenyddiaeth a'r newyddion (e.e. sylwadau David Silvester, cynghorydd plaid UKIP, ar lifogydd a phriodas hoyw). Trafodwch: ai gweithredoedd dyn ar y ddaear sy'n gyfrifol am dywydd difrifol?

## GEIRFA

**Tirlun Clasurol**
Mae'r syniad o dirlun clasurol yn deillio o'r ail ganrif ar bymtheg. Nid yw tirluniau clasurol yn gynrychiolaeth gywir o rywle go iawn, ond yn hytrach sut y dylai'r dirwedd ymddangos *mewn byd delfrydol*. Weithiau, gall tirlun fod yn gwbl ddychmygol ac nid yn seiliedig ar rywle penodol. Mae pob nodwedd neu elfen o dirlun clasurol yn seiliedig ar ddelfryd (yn fwy prydferth nag y byddai mewn bywyd go iawn – fel techneg *photoshop* heddiw) ac wedi'i gosod yn ei lle'n ofalus i greu darlun perffaith, cyson a chytbwys. Mae'n dirlun lle mae natur yn gaeth i reolau a chonfensiynau, ac yn cynrychioli rheolaeth dyn dros y byd naturiol.
Mwy o wybodaeth: gweler Ymweliad â'r Oriel Gelf – pecyn adnoddau'r orielau celf hanesyddol www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/caerdydd/athrawon, tudalennau 23-25.

**Paentiad hanesyddol**
Cynfasau mawreddog sy'n dangos golygfeydd o fyd hanes neu chwedloniaeth yw paentiad hanesyddol, gyda neges foesol i'r gwyliwr. Yn draddodiadol yn y byd celf, paentiadau hanesyddol oedd yn cael eu hystyried fel y gweithiau celf pwysicaf.

**Cyllell balet**
Teclyn a ddefnyddir gan yr arlunydd i gymysgu a thaenu paent.

**Mezzotint**
Print wedi'i wneud o blât copr neu ddur. Mae'r dechneg hon yn rhoi cyfle i'r artist ddefnyddio pob math o arlliwiau gwahanol, o'r tywyllaf i'r goleuaf, a phopeth rhwng y ddau begwn. Byddai'n cael ei ddefnyddio'n aml i ailgynhyrchu paentiadau.

## GWEFANNAU AC ADNODDAU

Amgueddfa Cymru: Celf Ar-lein – chwiliwch am luniau rhai o baentiadau'r arddangosfa
www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein

Amgueddfa Cymru: Ymweld â'r Oriel Gelf – casgliadau celf hanesyddol
www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/caerdydd/athrawon. Gwybodaeth am dirluniau ar dudalennau 23-25, 32, 36-39, 40-42, 51-52.

Y Gronfa Gelf: cyflwyniad i *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831
http://www.artfund.org/news/2013/05/23/constable-masterpiece-bought-for-the-nation

Tate: *Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831 (delwedd)
http://www.tate.org.uk/art/artworks/constable-salisbury-cathedral-from-the-meadows-t13896

Tate: *A Picture of Britain* – gwybodaeth ar dirluniau Prydeinig, gan gynnwys pecyn athrawon
http://www.tate.org.uk/download/file/fid/4649

Tate: *The Great Landscapes* – archwilich dirluniau Constable, gan gynnwys *Salisbury Cathedral*
http://www.tate.org.uk/whats-on/tate-britain/exhibition/constable-great-landscapes

Tate Gallery, *Constable*, catalog a ysgrifennwyd gan Leslie Parris ac Ian Fleming-Williams (Llundain: Tate Gallery Publications, 1991)

Thornes, John E., *John Constable's Skies: A Fusion of Art and Science* (Birmingham: The University of Birmingham Press, 1999)

Wilcox, Timothy, *Constable and Salisbury: The Soul of Landscape* (Llundain: Scala, 2011)